Annwyl [redacted],

Diolch i chi am dynnu fy sylw at yr ymholiadau ychwanegol hyn. Rwyf wedi ymgynghori ymhellach ag aelodau perthnasol fy nhîm a gallaf ddarparu'r wybodaeth ganlynol mewn ymateb:

*"Mae'r paragraff ar glirio llystyfiant wedi'i ysgrifennu fel pe na bai'r gwaith clirio wedi digwydd eto. Mae rhai anghysondebau amlwg rhwng ymateb Mr Price ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd a beth sydd wedi digwydd mewn gwirionedd, sef: mae'r BAP yn sôn am greu pentyrrau o logiau a dim ond tynnu coed pan fo hynny'n hanfodol. Nid wyf wedi gweld dim tystiolaeth i ddangos pam roedd yn hanfodol cael gwared ar lystyfiant penodol y tu ôl i'm heiddo i ond nid ar bwyntiau eraill ymhellach ar hyd y lein (sydd yn nes at y lein mewn gwirionedd). Efallai y byddai o ddiddordeb i Mr Price wybod bod yr holl lystyfiant ar hyd y rhan benodol hon wedi cael ei fwydo drwy beiriant malu coed fel mater o drefn a'i droi'n llwch llif yn hytrach na chreu pentyrrau o logiau. Cawsom lythyr gan TrC y diwrnod cyn i'r gwaith ddigwydd yn dweud y byddai'r deunydd naill ai'n cael ei dorri'n sglodion neu'n cael ei dynnu o'r safle felly dydw i ddim yn siŵr pam mae Mr Price yn dweud wrthych chi y byddai TrC yn gwneud pentyrrau o logiau o sgil-gynhyrchion. Mae hyn yn teimlo'n gamarweiniol ac yn annidwyll. Byddwn yn gwerthfawrogi barn Mr Price am yr anghysondeb penodol hwn."*

A: Mae pentyrrau o logiau'n cael eu gadael lle mae amodau'r tir yn caniatáu (h.y. ar dir gwastad) fel nad ydynt yn peri bygythiad o ran malurion naill ai'n rholio neu'n cael eu chwythu ar y cledrau. Mae lleoliadau hefyd yn cael eu hasesu ar gyfer y posibilrwydd o dresmasu/fandaliaeth, gan fod digwyddiadau blaenorol wedi bod pan mae aelodau o'r cyhoedd wedi tresmasu i fanteisio ar logiau oedd yn cael eu pentyrru ar y safle cyn eu symud. Rhaid cael caniatâd rheolwr prosiect perthnasol Amey Infrastructure Wales (AIW) cyn gadael pentyrrau o logiau ar y safle i sicrhau bod y meini prawf hyn yn cael eu bodloni.

*"Mae'r BAP, ac ymateb Mr Price yn sôn am greu 'cronfa ddata o asedau' ecolegol ond fel y gwyddoch (ac fel y mae Mr Price yn cadarnhau yn ei ymateb), nid yw hon wedi cael ei chreu hyd yma cyn gwneud y gwaith. Siawns na ddylid bod wedi gwneud hyn cyn dinistrio asedau ecolegol ar hyd y rhan hon o'r lein. Mae'n rhaid bod hyn yn annerbyniol ac mae'n debygol o fod wedi arwain at ddileu asedau ecolegol gwerthfawr heb ystyried a chraffu'n llawn ar eu gwerth. A all Mr Price gadarnhau na ddylai'r gwaith fod wedi cael ei wneud nes i'r gronfa ddata allweddol hon gael ei chreu?"*


A: Mae gan TrC ofyniad dim-colled-net i'w gyflawni erbyn 2024, felly nid yw'r gronfa ddata asedau ecolegol yn berthnasol i glirio llystyfiant a wnaed hyd y dyddiad hwn ac nid yw'r ymarfer hwn yn ofyniad safonol na chyfreithiol. Cynhaliwyd asesiad ecolegol ac Asesiad o Effaith Amgylcheddol llawn ar yr holl gynefinoedd cyn eu tynnu i lawr er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith â Cyfoeth Naturiol Cymru.

*"Mae'r BAP yn nodi: 'Byddwn yn glir ac yn dryloyw ynghylch hyd a maint ein gweithrediadau a'n gwaith cysylltiedig a'r rhesymau drostynt. Byddwn yn cyfleu hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys dolenni gwe pwrpasol ar ein gwefan a thrwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl am beth i'w ddisgwyl, a sut mae unrhyw ran benodol o'n gwaith yn cyd-fynd â'r cynllun hwn.' Rydw i'n gallu rhannu pob gohebiaeth rydyn ni wedi'i chael gan TrC ond dydw i ddim yn cofio gweld unrhyw gyfeiriad at y BAP yn unrhyw un ohonynt. Unwaith eto, mae e-bost Mr Price yn ymddangos yn anghywir ac yn gamarweiniol, a byddwn yn ddiolchgar am eglurhad ganddo ynghylch lle y cyfeiriwyd at y BAP mewn unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â'r gwaith hwn?"*


A: Dim ond dau fis yn ôl y rhyddhawyd y BAP felly ni chyfeiriwyd ato yn unrhyw un o'r negeseuon blaenorol er iddo gael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol adeg ei lansio.

*“Yn ogystal, rwyf wedi adolygu tudalen Facebook TrC ac ni allaf weld dim postiadau o gwbl yn cyfeirio at y gwaith ar reilffordd Coryton (11 Gorffennaf) heb sôn am unrhyw negeseuon yn cyfeirio at y BAP. A fyddai modd i Mr Price gadarnhau pryd y cafodd y negeseuon cyfryngau cymdeithasol hyn a oedd yn cyfeirio at y BAP eu cyhoeddi? Unwaith eto, nid yw’n ymddangos bod ei e-bost atoch chi yn cyd-fynd â realiti’r hyn y mae ei sefydliad yn ei wneud ar lawr gwlad.”*


Cafodd y BAP ei hyrwyddo ar Twitter ar 15 Mehefin, ac ar Facebook ar 10 Mehefin. Roeddem hefyd wedi hyrwyddo’r Cynllun ar Linkedin ac roedd nifer o bapurau newydd lleol wedi rhoi sylw iddo.




**Twitter**




**Facebook**






**LinkedIn** **Wales 247 News**

> *"2. Effaith allyriadau carbon: Mae ymateb Mr Price yn cyfeirio'n benodol at garbon sero net yn weithredol ond mae'n osgoi'r cwestiwn gwirioneddol roeddwn i wedi'i godi...sef, beth yw'r effaith gyffredinol ar allyriadau carbon wrth ystyried adeiladu, clirio llystyfiant, gosod, gweithgynhyrchu a datgomisiynu. Rwy'n tybio bod hyn yn golygu nad oes asesiad o'r fath wedi cael ei gynnal gan TrC, ac mai'r ateb gonest yw nad ydynt yn gwybod. Os nad felly y mae, byddwn yn dawelach fy meddwl pe baen nhw'n barod i rannu'r asesiad hwn â mi. Mae'n debyg bod y pwynt y mae Mr Price yn ei godi ynghylch Llywodraeth Cymru yn datgarboneiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth yn fwy priodol i'w gyfeirio at Lywodraeth Cymru yn hytrach nag at TrC, ond fy nealltwriaeth i o'r adroddiad CCC y cyfeirir ato yw ei bod yn ystyried trydaneiddio leiniau sy'n ymwneud â chludo nwyddau i raddau helaeth, a bod cyfeiriadau eraill at reilffyrdd ond yn cyfeirio at 'ddatgarboneiddio' yn hytrach na 'datgarboneiddio'n weithredol'. Os felly, mae fy sylwadau cynharach ynghylch cyfanswm costau'r gwaith hwn o ran carbon yn dal yn berthnasol."*

A: Byddai Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw astudiaethau sy'n ymwneud yn benodol â chymharu allyriadau carbon o ganlyniad i adeiladu'r metro o'i gymharu â'r golled o ran storio carbon yn sgil clirio llystyfiant cyn creu Trafnidiaeth Cymru. Mae'n annhebygol iawn bod yr ymarfer hwn wedi cael ei gynnal gan y byddai angen adnoddau sylweddol i fapio'r holl lystyfiant ar Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd er mwyn gwneud y cyfrifiad hwn.

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni wneud hyn fel rhan o'n targed bioamrywiaeth 'dim colled net', ac mae rhagor o fanylion am hyn isod.

Mae planhigion yn storio swm cyfyngedig o garbon felly er eu bod yn llwyddo i ddal rhywfaint o garbon dros gyfnod o amser, ni fyddai carbon ychwanegol yn cael ei amsugno'n barhaus. Byddai'r cyfrifiad ar gyfer y gwaith adeiladu wedi cael ei amcangyfrif gan y byddai angen i'r allyriadau ystyried lleoliad caffael eitemau fel dur a'r offer sydd ei angen ar y safle.

Bydd prosiect metro yn lleihau faint o garbon sy'n cael ei ryddhau gan drafnidiaeth gyhoeddus yn aruthrol. Bydd hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl newid eu dull teithio o gerbyd preifat i drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol. Cafodd y targed rydym yn gweithio tuag ato ei gyhoeddi yn ein Llythyr Cylch Gwaith diweddaraf gan Lywodraeth Cymru: 'i gyflawni allyriadau Carbon sero net yng nghyswllt holl weithrediadau uniongyrchol a gweithrediadau trafnidiaeth TrC a gefnogir gan gyllid a weinyddir gan TrC ar ran Gweinidogion Cymru (e.e. bysiau, trenau, cyfleusterau a gweithrediadau cefn swyddfa) erbyn 2030'.

Er mwyn lleihau allyriadau'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ar y safle, rydyn ni'n defnyddio generaduron solar,
Teledu cylch cyfyng solar a Goleuadau Solar.

> *"Mae'r cynllun datblygu cynaliadwy yn datgan y bydd pob gweithiwr wedi cael "hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol". O gofio'r fideo sydd gen i o'r gwaith sy'n cael ei wneud, byddwn yn ddiolchgar pe bai Mr Price yn gallu cadarnhau bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gyflawni."*

Mae hyfforddiant ar yr amgylchedd, ecoleg a datblygu cynaliadwy yn cael ei gynnal yn aml o fewn Trafnidiaeth Cymru ac mae'n ofynnol gan ein partneriaid ac mae ein holl weithwyr yn cael gwybodaeth yn ystod eu sesiynau cynefino wrth ymuno â'r sefydliad. Rydym wedi cyflwyno Cwrs Sylfaen IMA

mewn Rheolaeth Amgylcheddol yn ddiweddar a byddwn yn cynnig Hyfforddiant Llythrennedd Carbon i bob gweithiwr cyn bo hir.

> *“Mae’r cynllun datblygu cynaliadwy yn datgan: Bydd ein Rheolwr Amgylcheddol yn gwneud archwiliadau cydymffurfio i wneud yn siŵr bod pob trwydded a chymeradwyaeth reoleiddiol yn ei lle cyn dechrau gwneud gwaith cynnal a chadw ac adeiladu. A fyddai Mr Price gystal â rhannu canlyniad archwiliadau’r rheolwr amgylcheddol mewn perthynas â’r rhan hon o’r lein.”*

Mae’r holl ganiatadau angenrheidiol yn eu lle ar hyn o bryd; mae’r rhain yn cynnwys Hysbysiadau S61 ar gyfer Sŵn a’r holl Drwyddedau a Chaniatadau Ecolegol. Rydym yn cael ein harchwilio’n allanol gan archwilwyr o Groundwork Cymru mewn cysylltiad â System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Yn ddiweddar, rydym wedi trefnu'r holl gymeradwyaethau sy’n ofynnol ac mae trwyddedau ar waith, yn barod ar gyfer ein harchwiliad allanol nesaf ym mis Hydref.

> *“Yn olaf, mae Mr Price yn nodi bod TrC “yn mynd ati’n rhagweithiol i adolygu cyfleoedd i blannu mor agos â phosibl at ardaloedd yr effeithir arnynt”. Mae’n gyfleus bod tir y tu ôl i linell ffens TrC sy’n eiddo i mi a’m cymdogion, a byddem yn fwy na pharod i gynnig mynediad i TrC at hwn i blannu coed aeddfed addas pe bai hyn o ddiddordeb. Wrth gwrs, byddem eisiau ailgyflwyno coed aeddfed yn hytrach na choed ifanc heb ganghennau ac rwy’n siŵr y byddai Mr Price yn cytuno mai dyma’r ffordd fwyaf priodol o ddechrau lleihau’r difrod ecolegol. Rwy’n fodlon i TrC ymweld â’r eiddo a threfnu’r gwaith plannu hwn cyn gynted â phosibl. A fydd cystal â chadarnhau y bydd hyn yn cael ei wneud.”*

Er y byddem wrth ein bodd yn rhoi coed i ddeiliaid tai preifat neu ar dir preifat yn lle llystyfiant a gollwyd, nid ydym yn gallu gwneud hyn. Mae’r arian sydd gennym yn arian cyhoeddus ac mae rheoliadau ynglŷn â sut y caiff hwn ei wario. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gwneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau gwyrddu ac rydym wedi llwyddo i gael grant o £100,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Rydym wedi bod yn gwario’r arian grant hwn ar nodweddion gwyrdd, rydym yn gweithio i wella 22 o orsafoedd, ac rydym yn gweithio gyda phum grŵp cymunedol lle rydym wedi gosod potiau planhigion a choed i wella’r amgylchedd lleol. Hoffem barhau â’r gwaith hwn gyda grwpiau cymunedol, ac ar hyn o bryd rydym yn llunio cais am Grant Coetir Cymunedol.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd i’ch etholwr. Os oes unrhyw beth arall y gallaf ei wneud i helpu, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion cynnes,

[Llofnod]